M18.01

# Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015 – 2030

# ARCHWILIAD CYHOEDDUS

## Sesiwn Gwrandawiad Mater 18

## Dydd Mercher 19 Mai 2021

## Perygl Llifogydd

### EN14 Perygl Llifogydd

## Datganiad Gwrandawiad gan Gyngor Sir y Fflint

## 30/04/21

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

## Archwiliad Cyhoeddus Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (2015–2030)

## Datganiad Cyngor Sir y Fflint: Mater 18: Perygl Llifogydd - EN14 Perygl Llifogydd

Mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi gan Gyngor Sir y Fflint (CSyFf) mewn ymateb i gwestiynau gwrandawiad yr Arolygwyr:

| |
|---|
| **Mater Allweddol:**<br>**A yw'r polisïau a'r cynigion ar y mater hwn yn cyflawni amcanion perthnasol y CDLl mewn dull cynaliadwy sy'n gyson â pholisi cenedlaethol? A ydynt wedi eu seilio ar dystiolaeth gadarn a chredadwy?** |
| **Ymateb:**<br>1. Mae Polisi STR14 yn nodi'r egwyddorion strategol mewn perthynas â newid hinsawdd a diogelu'r amgylchedd ac yn cyfeirio'n glir at ystyriaethau perygl llifogydd ym meini prawf iv.<br>Mae'r polisi strategol yn cyfeirio at y canllawiau mwy manwl ym mholisi EN14 Perygl Llifogydd. Mae'r polisi hwn yn cynnwys cyfres o feini prawf a fydd yn cael eu defnyddio i asesu cynigion datblygu newydd ac ystyrir eu bod yn adlewyrchu'r canllawiau presennol yn adran 6.6 Polisi Cynllunio Cymru 11 a Nodyn Cyngor Technegol 15. Nid oes unrhyw wrthwynebiad i'r meini prawf polisi. Hysbysir y polisi gan yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd LDP-EBD-EN1 a gynhaliwyd yn gynharach wrth baratoi'r Cynllun. |
| **Cwestiwn a)**<br>**A yw'r holl ddyraniadau tai, cyflogaeth ac eraill yn y CDLl nawr yn destun Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd manwl? A yw hyn yn arwain at unrhyw gyfyngiadau sylweddol o ran cyflwyno'r dyraniadau?** |
| **Ymateb y Cyngor:**<br>a.1 Gwrthwynebodd Cyfoeth Naturiol Cymru'r polisi (id1049) gan nad yw'r holl ddyraniadau yn y Cynllun wedi cael eu hasesu yn yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd. Mae'r sylw yn cyfeirio'n benodol at Atodiad 1 o'r Ddogfen Cyfoeth Naturiol Cymru i'w Harchwilio gan y Cyhoedd, sy'n nodi pryderon mewn perthynas â nifer o safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd o fewn polisi PE1.<br><br>a.2 Mae'r Cyngor wedi diweddaru ei Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (LDP-EBD-EN2) fel rhan o asesu'r dyraniadau PE1. Yna, bu i'r Cyngor, drwy ei ymgynghorwyr JBA ac yn dilyn cyswllt parhaus gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, gynnal Gwerthusiadau Perygl Llifogydd pwrpasol, ar y safleoedd cyflogaeth a oedd yn peri pryder. Yn dilyn ymgynghoriad pellach gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar y Gwerthusiadau hyn, daethpwyd i gytundeb y byddai 6 o ddyraniadau cyflogaeth tymor byr a thymor hir yn cael eu dileu o'r Cynllun, ac roedd hyn yn bodloni gwrthwynebiad Cyfoeth Naturiol Cymru fel y nodwyd yn y Datganiad Tir Cyffredin. Mae'r dyraniadau a ddilëwyd o'r Cynllun wedi'u nodi yn y tabl isod, er dylid nodi bod sawl un o'r rhain yn dal o fewn PE2 Prif Ardal Gyflogaeth, lle gellir |

cynnal datblygiadau cyflogaeth yn amodol ar Asesiad Manwl o Ganlyniadau Llifogydd ar y cam cais cynllunio. Mae effaith net y newidiadau hyn yn fach iawn, oherwydd, ar y cyfan, dim ond 9.6 ha o dir a dynnwyd o safleoedd PE1, ac mae 5.2 ha o'r tir hwn yn parhau i fod mewn Prif Ardaloedd Cyflogaeth o dan PE2, gan adael colled net o 4.4 ha yn unig. Ni ystyrir bod hyn yn sylweddol o ystyried y gor-ddyraniad cyffredinol o dir cyflogaeth yn y cynllun, cynnal y rhan fwyaf o'r safleoedd nad ydynt wedi eu dynodi o fewn PE2, ac ni ystyrir bod hyn yn effeithio ar gadernid y Cynllun:

| **Safle Cyflogaeth** | **Canfyddiadau'r Gwerthusiad Perygl Llifogydd - Addas i ddyrannu?** | **Gwaith Pellach** | **Sylwadau CNC** | **Cadw fel Prif Ardal Gyflogaeth?** | **Arwynebedd y Tir a Ddad-ddyrannwyd** |
|---|---|---|---|---|---|
| PE1.4 Parc Busnes Maes Glas Cam II | Nac ydi | | Cytuno gyda chasgliadau'r Gwerthusiad Perygl Llifogydd sef nad yw'n bosibl i ddangos bod canlyniadau llifogydd yn y safleoedd hyn yn gallu cael eu rheoli mewn ffordd dderbyniol. | Ia PE2.15 | 1.2ha |
| PE1.6 Ystâd Ddiwydiannol Broncoed | Ydi | ACLI i gadarnhau'r risg i'r safle drwy fodelu pellach. | Pryderon sylweddol gyda'r dyraniad – diwygio'r ffin i dynnu ar faint C2, neu fod gwaith asesu pellach yn cael ei gynnal. | Ia PE2.17 | 0.7ha |
| PE1.10 Ystâd Ddiwydiannol Antelope | Efallai | Risg sylweddol o ddigwyddiad AEP 0.1%. Er, risg isel o AEP 1% + digwyddiad newid hinsawdd. Ymgynghori gyda CNC ar dderbynioldeb. | Pryderon sylweddol gyda'r dyraniad – diweddaru'r model ac ystyried rhwystr, ac yna cyflwyno argymhelliad yn seiliedig ar yr asesiad o berygl llifogydd wedi'i ddiweddaru. Nid yw'r data a ddefnyddiwyd ar gyfer y safle hwn yn addas. | Ia PE2.24 | 1.1ha |
| PE1.12 Rowley's Drive | Nac ydi yn seiliedig ar dor-rheolau | | Cytuno gyda chasgliadau'r Gwerthusiad Perygl | Ia PE2.30 | 0.7ha |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Llifogydd sef nad yw'n bosibl i ddangos bod canlyniadau llifogydd yn y safleoedd hyn yn gallu cael eu rheoli mewn ffordd dderbyniol. | | |
| PE1.5 Parc Busnes Maes Glas Cam III | Nac ydi | | Cytuno gyda chasgliadau'r Gwerthusiad Perygl Llifogydd sef nad yw'n bosibl i ddangos bod canlyniadau llifogydd yn y safleoedd hyn yn gallu cael eu rheoli mewn ffordd dderbyniol. | Yn rhannol (rhan ogleddol 1.5ha) PE2.15 | 2.9ha |
| PE1.8 Ger Dociau Mostyn | Nac ydi | ACLI i gadarnhau'r risg i'r safle drwy fodelu pellach. | Cytuno gyda chasgliadau'r Gwerthusiad Perygl Llifogydd sef nad yw'n bosibl i ddangos bod canlyniadau llifogydd yn y safleoedd hyn yn gallu cael eu rheoli mewn ffordd dderbyniol. | Na | 3.0ha |

a.3 Fe wnaeth CNC hefyd nifer fechan o sylwadau mewn perthynas â dyraniadau safleoedd eraill gan ystyried pryderon perygl llifogydd. Mae'r rhain wedi'u nodi'n fras isod ond maent hefyd wedi'u nodi'n fwy manwl yn y Datganiad Tir Cyffredin CNC.

HN1.4 - Northop Rd, Y Fflint

a.4 Bu i sylw gan CNC nodi anghysondeb o ran mapio, lle mae rhan fechan o gyfran orllewinol y dyraniad tai yn gorgyffwrdd â ffin y parth perygl llifogydd C2 ar hyd y Swinchiard Brook. Dim ond adlewyrchu ffin C2 wedi'i diweddaru ers llunio ffin y dyraniad a wna hyn. Nid yw'r mater yn effeithio'r egwyddor o ddatblygu ar y safle a ddyrannwyd, nid yw CNC yn gwrthwynebu hyn. Mae'r Datganiad Tir Cyffredin CNC y cytunwyd arno yn nodi y gellir diwygio ffin y dyraniad ac mae wedi'i nodi ar gynllun. Mae'r gwrthwynebiad gan CNC wedi'i oresgyn.

HN8.3 – Riverside, Queensferry

a.5 Bu i sylw gan CNC nodi bod y safle o fewn parth perygl llifogydd C1 a bod yr estyniad arfaethedig i’r safle Sipsiwn ar gyfer datblygiad agored iawn i niwed, sydd angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd. Mae Asesiad Manwl o Ganlyniadau Llifogydd wedi cael ei gynnal gan ymgynghorwyr y Cyngor, Weetwood, ac mae hyn wedi nodi tir ar gyfer storio llifogydd er mwyn mynd i’r afael â phryderon CNC y byddai codi’r platfform datblygu yn cynyddu’r perygl o lifogydd mewn mannau eraill. Fel yr esboniwyd yn y Datganiad Tir Cyffredin, mae CNC yn ystyried bod y Cyngor wedi dangos y gall y perygl llifogydd mewn mannau eraill gael ei reoli i lefel dderbyniol at ddibenion dyrannu yn y Cynllun ac nid ydynt yn gwrthwynebu mwyach.

EN13 Iard Crumps

a.6 Cyflwynwyd sylw gan CNC yn nodi bod y dyraniad o fewn parth perygl llifogydd C1 ac y byddai’n rhaid i’r penderfyniad i gadw’r dyraniad gael ei gefnogi gan Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd. Mae caniatâd cynllunio bellach wedi’i roi (060765) ar gyfer y fferm solar ac Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd boddhaol i gyd-fynd â hyn. Mae’r gwrthwynebiad gan CNC wedi’i fodloni fel y nodir yn y Datganiad Tir Cyffredin, ac mae’r datblygiad wedi cael ei adeiladu.

a.7 Fel yr eglurwyd uchod ac yn y Datganiad Tir Cyffredin y cytunwyd arno gyda CNC, nid oes unrhyw wrthwynebiadau yn weddill i unrhyw un o ddyraniadau'r Cynllun mewn perthynas â pherygl llifogydd.